

TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU

Cyflwyniad

1. Rwy'n croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am sut y mae'r llywodraeth, ar draws fy mhortffolio, yn cefnogi darpariaeth addysg cerddoriaeth. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol a'r cymorth ar ffurf cyllid yr wyf wedi'i ryddhau er mwyn gwella mynediad i'r cyfleoedd hyn.
2. Gwelir Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru fel 'pyramid', sy'n rhoi llwybr cynnydd clir i ddysgwyr, ar gyfer cymryd rhan mewn:
 1. Cerddoriaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Chreu Cerddoriaeth mewn Ysgolion;
 2. Gwersi Cerddoriaeth Unigol;
 3. Ensemblau Sirol a Chenedlaethol
3. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau, ar bob cam yn y 'pyramid' hwn, bod cyfleoedd i bobl ifanc berfformio, cael cydnabyddiaeth o'u doniau, meithrin eu doniau a chefnogi'r rhai y gall fod angen cymorth ariannol arnynt i gael offerynnau, gwersi neu i gymryd rhan mewn ensemblau. Mae'r pwynt olaf hwn yn arbennig o bwysig imi; mae cerddoriaeth yn rhan annatod o'n diwylliannau a'n hunaniaeth gyffredin a dylai pob person ifanc allu cymryd rhan, beth bynnag ei gefndir. Ni ellir caniatáu i Addysg Cerddoriaeth ddod yn fraint i'r dethol rai; rhaid iddi barhau i fod ar gael i bawb.
4. Gan gymryd pob cam yn y 'pyramid' yn ei dro, byddaf yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor am y cyfleoedd a'r gefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cerddorol sydd ar gael ar bob lefel. Rwyf hefyd yn amlinellu'r cyllid sydd ar gael i gynnig cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithgareddau cerddorol i bobl ifanc.

Cerddoriaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Chreu Cerddoriaeth mewn Ysgolion

5. Mae plant yn cael profiadau o gerddoriaeth mewn addysg o'r cychwyn cyntaf. Daw cerddoriaeth o dan y Maes Dysgu Datblygiad Creadigol yn y Fframwaith Cyfnod Sylfaen. Maent yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol, dychmygus a mynegiannol ym maes celf, crefft, dylunio, cerddoriaeth, dawns a symud; archwilio ystod eang o ysgogiadau i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu a mynegi eu syniadau creadigol, a myfyrio ar eu gwaith.

6. Mae astudio cerddoriaeth yn rhan statudol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2 (7-11 oed) a chyfnod allweddol 3 (11-14 oed). Mae'r rhaglen astudio ar gyfer Cerddoriaeth yn cynnwys ystod eang o weithgareddau sy'n datblygu sgiliau dysgwr mewn perfformio, cyfansoddi ac arfarnu; wrth ganu, gydag offerynnau ac fel unigolion a rhan o grŵp. Disgwylir y bydd dysgwyr yn cael profiad o ystod eang o offerynnau megis offerynnau taro, recorderau ac allweddellau electronig.
7. Mae cyfle o fewn y rhaglen astudio i ddarparu'r gweithgareddau hyn drwy amrywiaeth o genres cerddorol; megis y traddodiad 'clasurol' Ewropeaidd, cerddoriaeth werin a phoblogaidd, cerddoriaeth Cymru a thraddodiadau a diwylliannau cerddorol eraill. Mae athrawon yn rhydd i archwilio'r ystod lawn o gerddoriaeth, gan ddewis y genres a'r traddodiadau y maent yn credu y byddant yn ysbrydoli ac yn ennyn diddordeb eu dysgwyr orau.
8. Mae cerddoriaeth ar gael i ddysgwyr ei hastudio fel cymhwyster fel rhan o'u hopsiynau pan fyddant yn symud i gyfnod allweddol 4 (14-16 oed). Dengys data Gyrfu Cymru Ar-lein fod 98% o ysgolion yng Nghymru yn rhoi cyfle i'w dysgwyr astudio cerddoriaeth ar gyfer TGAU. Rhyddhawyd manyleb ddiwygiedig ar gyfer TGAU cerddoriaeth gan CBAC i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2016.
9. Yn 2016, safodd 2,484 o ddysgwyr arholiad TGAU cerddoriaeth yng Nghymru; o blith y rhain cafodd 82% raddau A* -C. Mae canran y dysgwyr a gafodd radd A*-C dros yr holl bynciau yn 72%; sy'n golygu bod ein pobl ifanc yn perfformio'n arbennig o dda mewn TGAU cerddoriaeth.
10. Mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cynnwys y Maes Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn yn rhoi'r celfyddydau, gan gynnwys cerddoriaeth, wrth galon ein system addysg newydd; gan roi iddynt statws cyfartal â meysydd dysgu eraill megis mathemateg a gwyddoniaeth a thechnoleg.

Cyllid a Chefnogaeth ar gyfer Cerddoriaeth yn y Cwricwlwm a Chreu Cerddoriaeth mewn Ysgolion

11. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion i gyflwyno gweithgareddau addysg cerddoriaeth o ansawdd o fewn y cwricwlwm mewn sawl ffordd.
12. Daw'r rhan fwyaf o gyllid i ysgolion yng Nghymru drwy'r setliad llywodraeth leol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Y cyllid hwn sydd heb ei neilltuo yw'r

elfen unigol fwyaf o gyllid llywodraeth leol ac mae addysg yn parhau i gyfrif am tua 33% o'r holl wariant a gyllidebir gan awdurdodau lleol.

13. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn arf pwerus i ysgolion gefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i gael mynediad i'r profiadau celfyddydol a diwylliannol na fyddent fel arall yn gallu cymryd rhan ynddynt.
14. Ym mis Chwefror 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i ysgolion ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Nododd y canllawiau hyn y gall ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, ar sail achosion unigol, i helpu dysgwyr unigol o deuluoedd incwm isel i fynd ar drywydd celfyddydau penodol, megis gwersi offerynnol; cyn belled â'i fod yn cefnogi cyrhaeddiad academaidd yn fwy cyffredinol.
15. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu pecyn hyfforddi ar ddefnyddio'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae hyn wedi cael ei gyhoeddi ar Dysgu Cymru ac mae'n amlygu sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi gweithgareddau cyfoethogi diwylliannol. Mae hefyd yn darparu strwythur a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddylunio ymyriadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth. Mae cyfanswm y Grant Datblygu Disgyblion wedi cynyddu i fwy na £90 miliwn yn 2017-18.
16. Mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, rydym yn cyflawni Cynllun Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau 2015-2020, sef rhaglen 5 mlynedd gwerth £20 miliwn (£10 miliwn o arian gan Lywodraeth Cymru a £10 miliwn o arian cyfatebol gan Gyngor Celfyddydau Cymru), i gefnogi ysgolion i ddefnyddio creadigrwydd a'r celfyddydau er mwyn gwella cyrhaeddiad a chodi dyheadau. Mae'r cynllun hwn yn gweithredu ar yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Dai Smith yn ei adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg (2013), a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o gelfyddydau, gan gynnwys cerddoriaeth.

Gwersi Cerddoriaeth Unigol i Bobl Ifanc

17. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod yr holl bobl ifanc sydd eisiau symud ymlaen i gael gwersi cerddoriaeth unigol, yn cael y cyfle i wneud hynny. Yn ogystal â datblygu dysgwyr yn gerddorol, mae mynediad i'r cyfleoedd hyn hefyd yn cyfrannu at feithrin sgiliau a manteision ehangach, fel disgyblaeth, dyfalbarhad a llesiant cyffredinol.

18. Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerdd ei gynnull gan fy rhagflaenydd i archwilio sut y mae Llywodraeth Cymru, ynghyd ag awdurdodau lleol, ysgolion a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn gallu amddiffyn a chefnogi gwaith gwasanaethau cerdd Cymru yn well. Roedd hwn yn adroddiad gwerthfawr iawn ac rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda'r sefydliadau hyn i roi ei argymhellion ar waith.

Cyllido a Chefnogi Gwersi Cerddoriaeth Unigol i Bobl Ifanc

19. Ers imi ddechrau ar fy swydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y llynedd rwyf wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i ymateb i'r pryderon a godwyd yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerdd.

20. Yn ei adroddiad nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerdd fod stociau awdurdodau lleol o offerynnau yn prinhaus a bod hyn yn cael effaith negyddol ar allu dysgwyr i gael mynediad i gyfleoedd dysgu. Dyna pam y rhyddhawyd £220,000, (£10,000 ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru) gennyf ym mis Mawrth eleni, er mwyn i awdurdodau lleol brynu offerynnau cerdd, gan gynyddu eu stociau a sicrhau y bydd offerynnau ar gael i'r rhai y mae eu hangen fwyaf arnynt.

21. Yn ychwanegol at y cyllid hwn, mae CLILC wedi ymrwymo i sefydlu mecanwaith rhannu cenedlaethol er mwyn i awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'r offerynnau newydd hyn a'u stoc bresennol. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at argymhelliad y grŵp gorchwyl a gorffen i greu cronfa ddata genedlaethol o offerynnau.

22. Rwyf hefyd wedi dechrau cynllunio, mewn partneriaeth â CLILC, amnest cenedlaethol o offerynnau cerdd yn ddiweddarach eleni. Bydd yr amnest yn apelio ar y cyhoedd i gyfrannu offerynnau o ansawdd da y gellir eu hailddosbarthu i bobl ifanc drwy wasanaethau cerdd awdurdodau lleol. Mae'r trafodaethau hyn ar gamau cynnar iawn, fodd bynnag rwy'n gobeithio y bydd aelodau'r pwyllgor yn cefnogi'r cynllun arloesol hwn pan fyddwn yn barod i ryddhau rhagor o wybodaeth i'r cyhoedd.

23. Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddais y byddwn yn sefydlu gwaddol cerddoriaeth ar gyfer Cymru i gefnogi gweithgareddau cerddorol ychwanegol i bobl ifanc, sef un o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerdd. Mae manylion pellach am y gwaddol a'i gynnydd yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach yn y papur hwn.

24. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar ôl blwyddyn, yn manylu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn sgil argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar

Wasanaethau Cerdd, ar 6 Ebrill. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r gwasanaethau cerdd yng Nghymru.

Cyllid a Chefnogaeth i Ensemblau Sirol a Chenedlaethol

25. Er nad yw polisi yn ymwneud ag ensemblau cerddorol elitaidd yn dod o dan fy mhortffolio, rwy'n ymwybodol o'r rhan hanfodol y maent yn ei chwarae o ran cynorthwyo ein pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd perfformio elitaidd a darparu llwybr gyrfu tuag at fod yn gerddor proffesiynol.
26. Wrth i'r ensemblau perfformio cenedlaethol symud o dan adain eu sefydliad ymbarél newydd, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru, rwy'n ymwybodol bod llawer o bryder ynghylch a fydd awdurdodau lleol yn parhau i gyfrannu at yr ensemblau a pha effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddarparu gweithgareddau os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny.
27. Credaf y dylai pob person ifanc sy'n dangos y lefel o dalent gerddorol sydd ei hangen i ennill lle ar un o'r ensemblau perfformio cenedlaethol allu cymryd rhan. Rhaid i'r ensemblau barhau i fod ar agor i bawb ac nid dim ond y rhai sy'n gallu fforddio hynny. Rwyf felly wedi darparu £280,000 i CLILC i ad-dalu awdurdodau lleol am eu cyfraniad at yr ensemblau perfformio cenedlaethol yn ystod 2016/17. Rhoddwyd yr arian hwn ar y ddealltwriaeth y bydd awdurdodau lleol yn parhau i roi cyfraniad i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru ar gyfer darparu ensemblau yn 2017/18.

Cymorth a Chyllid ar gyfer Gweithgareddau Cerddorol Ychwanegol ar gyfer Pobl Ifanc

28. Ym mis Chwefror eleni gwnes ddatganiad yn y Senedd ynglŷn â sefydlu Gwaddol Cerddoriaeth ar gyfer Cymru. Ei nod yw bod yn ffynhonnell gyllid tymor canol i'r tymor hir ar gyfer cerddoriaeth a dyma'r cyntaf o'i bath yng Nghymru.
29. Nod y gwaddol, a gefnogir gan gyfraniad ar y cyd o £1 filiwn o'm cyllideb i a chyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, yw darparu gweithgareddau cerddorol gwell ar gyfer pobl ifanc.
30. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru bellach wedi dechrau ar y broses o sefydlu'r gwaddol, gan gynnwys sefydlu bwrdd elusennol annibynnol, a fydd yn gallu derbyn rhoddion, rheoli'r gronfa a gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddiolwyr posibl a chyllid cymwys.

31. Bydd y Gwaddol ar gyfer Cerddoriaeth yng Nghymru yn cael ei greu drwy roddion elusennol drwy amrywiaeth o ddulliau a rhanddeiliaid. Dros y misoedd nesaf rydym yn bwriadu gweithio gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau o Gymru a thu hwnt er mwyn sicrhau y gall y gronfa ddechrau dyfarnu grantiau cyn gynted ag y bo modd. Y gobaith yw y bydd y gronfa yn gallu dechrau dyfarnu grantiau o 2020 ymlaen